COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (A) A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 18 IONAWR 2018, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

SE Baldwin PA Davies AA Pucella JE Williams

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

DK Edwards

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Nick Dennison | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

72. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd K Edwards a oedd yn ymgymryd â busnes arall yn ymwneud â'r Cyngor.

73. DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

74. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd Is-bwyllgor Trwyddedu 'A,' dyddiedig 21 Medi a 16 Tachwedd 2017, fel cofnod cywir.

75. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethau adroddiad yn gofyn i'r Is-bwyllgor ystyried cais am drwydded ar gyfer Cerbyd Hurio Preifat.

Cais gan James Bickerstaff oedd hwn, i drwyddedu Renault Trafic Business Class, â'r rhif cofrestru MD15 SXA, fel cerbyd Hurio Preifat i gludo 8 o deithwyr. Roedd y cerbyd yn eiddo i rywun arall cynt ac fe'i cofrestrwyd gyntaf â'r DVLA ar 27 Gorffennaf 2015.

Yna, aeth yr Aelodau a'r swyddogion ati i archwilio'r cerbyd ym maes parcio llawr isaf Siambr y Cyngor, gan ohirio'r cyfarfod er mwyn gwneud hynny.

Ar ôl ailddechrau'r cyfarfod, dywedodd Rheolwr y Tîm (Trwyddedu) fod y cerbyd wedi teithio 17,638 o filltiroedd hyd yma. Ychwanegodd nad oedd y cais yn cydymffurfio â'r Polisi Cerbydau Hurio Preifat a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Nid oedd modd cludo cadair olwyn ynddo, ond roedd canllawiau polisi penodol yn ymwneud â thrwyddedu Cerbydau Hurio Preifat am y tro cyntaf nad oeddent yn cydymffurfio â'r canllawiau polisi a amlinellwyd ym mharagraff 4.4. o'r adroddiad. Roedd yr ymgeisydd wedi darparu hanes cynnal a chadw llawn y cerbyd.

Gofynnodd Rheolwr y Tîm (Trwyddedu) i'r ymgeisydd roi braslun o hanes y cerbyd i'r Aelodau.

Cadarnhaodd Mr. Bickerstaff mai cwpl oedrannus oedd unig berchnogion blaenorol y cerbyd ac y byddai'n cael ei ddefnyddio'n bennaf i deithio i'r maes awyr, ac i gludo pobl rhwng Pen-y-bont ar Ogwr i Gaerdydd am 'noson allan' etc.

PENDERFYNWYD: Trafododd yr Is-bwyllgor y cais i drwyddedu cerbyd â rhif cofrestru MD15 SXA fel Cerbyd Hurio Preifat.

Nododd yr Is-bwyllgor nad oedd y cerbyd yn cydymffurfio â pharagraff 2.1 o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor, a hynny oherwydd ei oed.

Trafododd yr Is-bwyllgor yr amgylchiadau eithriadol o dan baragraff 2.2.5 o'r Polisi ac, oherwydd safon eithriadol y cerbyd ar y tu mewn a'r tu allan, a'r safonau diogelwch eithriadol, cytunodd yr Aelodau i ganiatáu'r cais.

76. EITEMAU BRYS

Dim.

77. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, o dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, tra oedd yr Is-bwyllgor yn trafod yr eitemau a ganlyn gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth esempt fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 1o Ran 4 a/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

Ar ôl cymhwyso'r prawf budd cyhoeddus, penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, er mwyn trafod yr eitemau a ganlyn mewn sesiwn breifat, a hynny oherwydd, ym mhob un o'r amgylchiadau'n ymwneud â'r eitemau hyn, ystyriwyd bod y budd cyhoeddus a oedd ynghlwm wrth barhau â'r eithriad yn drech na'r budd cyhoeddus a oedd ynghlwm wrth ddatgelu'r wybodaeth, gan y byddai'r wybodaeth yn niweidiol i'r ymgeiswyr dan sylw.

78. CYMERADWYAETH COFNODION WEDI'U EITHRIO

79. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

80. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

81. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

82. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

Daeth y cyfarfod i ben am 13:00